O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 2506 (Cy. 275)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 12, Tal-y-bont i Gyffordd 13, Abergwyngregyn, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed	*27 Medi 2012*
Yn dod i rym	*8 Hydref 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer - Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Hydref 2012. Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 12, Tal-y-bont i Gyffordd 13, Abergwyngregyn, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period"*) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 23.59 o'r gloch ar 8 Hydref 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" (*"the lengths of the trunk road"*) yw'r darnau hynny o'r gefnffordd a nodir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.